

## **BIOLEG 2: Organebau i Ecosystemau**

**Amser - 1.5 awr**

**Rhowch gynnig ar 3 chwestiwn.**

---

1. Esboniwch y gwahaniaeth rhwng ymddygiad 'cynhenid' ac ymddygiad 'a ddysgir'.
2. Trafodwch amrywiol ffyrdd o ddiffinio ac asesu 'bioamrywiaeth'.
3. Ystyriwch sut y mae poblogaethau'n tyfu a'r ffactorau a all ddylanwadu ar eu twf.
4. Rhowch rai enghreifftiau o barasitiaid a'r clefydau y maent yn eu hachosi.
5. Disgrifiwch, gan roi enghreifftiau, y dull hierarchaidd o ddsbarthu organebau.
6. Trafodwch sut mae cyfansoddiad genetig poblogaeth yn gallu amrywio dros amser.
7. Ysgrifennwch draethawd am unrhyw agwedd ar organebau dŵr.
8. Amlinellwch y dull o ddsbarthu bacteria a'r dulliau sylfaenol o'u hastudio mewn labordy.
9. Amlinellwch swyddogaethau micro-organebau mewn cylchredau maetholion ecolegol.
10. Trafodwch ddulliau cadwraeth natur a welir mewn sefydliad, gwarchodfa neu swê benodol.
11. Pa fath o drafferthion a all ddeillio o ffordd o fyw nad yw'n iach?
12. Pa gyfraniadau ydych chi'n disgwyl y bydd geneteg yn eu gwneud i iechyd pobl yn y dyfodol?
13. Disgrifiwch yn dechnegol fanwl sut y byddech yn cynnal arolwg ecolegol.
14. Esboniwch y cysyniadau 'ecosystemau', 'cynefinoedd', a 'chymunedau'.
15. Ysgrifennwch draethawd am unrhyw organeb neu grŵp tacsonomaidd sydd o ddiddordeb arbennig ichi.
16. Trafodwch unrhyw agwedd fiolegol ar y diwydiant bwyd.
17. Ysgrifennwch draethawd ar fiolegydd amlwg yr ydych yn ei edmygu.
18. Disgrifiwch unrhyw ddulliau ystadegol a ddefnyddiwyd gennych at ddibenion gwyddonol.